Amlygu'r Anweledig

Bu'r grwp polisi ac ymchwil diwylliannol newydd Y Ffwrwm yn cynnal cynhadledd yn Theatr Felin-fach ddechrau Hydref. ***Gareth Ioan****, Prif Weithredwr Cwmni Iaith, ac aelod o'r Ffwrwm sy'n rhoi blas ar y trafod yng nghynhadledd Arian Byw.*

Mae'r newidiadau demograffaidd sy'n effeithio cymunedau gorllewin Cymru dros y 10 i 15 mlynedd diwethaf yn hysbys i bawb bellach. *Mewnlifiad ac allfudiad* a *symudoledd poblogaeth* yw'r disgrifiadau moel o'r hyn sy'n digwydd ond mae'r rheini'n ddisgrifiadau rhy syml a rhy hawdd i wneud iawn â'r newidiadau cymdeithasol cymhleth a dyrys sy'n ffrwtian yn feunyddiol o fewn y cymunedau hynny. Yn wir, mae'r cyfan yn medru bod yn dipyn o gawl wrth i'r cymunedau Cymraeg traddodiadol wynebu ton ar ôl ton o heriau i'w bodolaeth – yn ddemograffaidd, economaidd, ysbrydol, technolegol a diwylliannol.

Dros y degawd diwethaf bu rhwydwaith o gyfeillion a chydnabod sy'n gweithio yn bennaf ym maes y celfyddydau cymunedol neu sy'n ysgogwyr gweithgareddau cymdeithasol lleol yng Ngheredigion yn ceisio canfod dulliau i weithio'n fwy effeithiol yng nghanol y newidiadau hyn, a hynny er parhad y diwylliant Cymraeg. Sut mae ymateb yn gadarnhaol mewn sefyllfa o newid? Sut mae arfogi siaradwyr Cymraeg lleol? Sut mae pontio rhwng y ddwy gymuned iaith? Sut mae creu Ceredigion Gymraeg fentrus a hyderus i'r dyfodol? Sut mae amlygu a mynegi y profiad diwylliannol Cymraeg yn oes y globaleiddio?

Yn ddiweddar, deilliodd y trafodaethau anffurfiol ar gyfarfodydd penodol i geisio ymrafael o ddifrif gyda'r sefyllfa. Trwy'r trafodaethau hynny cafwyd cyd-ddealltwriaeth o rai egwyddorion ac arferion gwaith craidd oedd wedi profi llwyddiant i'r aelodau dros y blynyddoedd. Penderfynwyd y dylid rhannu'r canfyddiadau hyn ag eraill. Cafwyd enw: Y Ffwrwm – mainc drafod mewn tafarn neu weithdy, i'r rhai anghyfarwydd â'r term. Lluniwyd papur lleoli, maniffesto cychwynnol ar gyfer gweithredu'n greadigol o fewn y gymuned a phenderfyniad i geisio dod â'r materion i sylw ehangach trwy gyfrwng cynhadledd. Wele, felly, drefnu Arian Byw *Live Culture* yn Theatr Felin-fach ar 2-3 o Hydref.

Agorwyd y gynhadledd gan Gareth Ioan, o Gwmni Iaith, a gyflwynodd y papur lleoli hynny, 'Celfyddyd Ddeinamig a Chynnal Cymuned', ar ran Y Ffwrwm. Dadleuodd fod asiantaethau datblygu yn colli cyfleon euraid yng ngorllewin Cymru oherwydd bod y

diwylliant Cymraeg yn anweledig iddyn nhw. Mae'r diwylliant Cymraeg yn bodoli fel rhyw Annwfn anweledig o'i cwmpas ymhobman, meddai, heb iddyn nhw fedru amgyffred ei gyfoeth na'i botensial. Os am ryddhau potensial unigolion a chymunedau – bydded hynny yn economaidd, addysgol neu'n gymdeithasol – mae'r Ffwrwm yn dal fod rhaid gweithio â phobl ar eu telerau eu hunain ac o fewn cyd-destun diwylliannol sy'n berthnasol iddyn nhw.

Mae iaith a diwylliant yn ganolog i'r perthnasedd hynny. Ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae nifer gynyddol o'r asiantaethau hyn yn arddel graddau o ddwyieithrwydd ond does dim argoel eu bod wedi dechrau adnabod y gwahaniaethau diwylliannol y mae'r dwyieithrwydd yn fynegiant ohonyn nhw, heb sôn am eu deall a'u defnyddio i ryddhau potensial creadigol ein cymunedau.

O brofiad aelodau'r Ffwrwm, mae gan weithgareddau celfyddydol, yn benodol, y gallu i harneisio arferion diwylliannol er rhyddhau potensial y gymuned ac ymrymuso unigolion. Ond roedd yna her hefyd i weithredwyr cymunedol Cymraeg i beidio bodloni ar yr hen ffurfiau blinedig – boed gelfyddydol neu ddiwylliannol. Rhaid ieuo'r traddodiadol gyda chyfryngau a dylanwadau newydd, gan eu meddiannu yn enw'r gymuned Gymraeg i greu synthesis celfyddydol newydd a all ysbrydoli ac ysgogi gweithgaredd ac, o ganlyniad, arferion cymdeithasol cadarnhaol ehangach.

Yn gwau drwy'r gynhadledd roedd darnau fideo o waith creadigol a oedd yn enghreifftiau o arfer da. Dangoswyd sawl darn gan Brith Gof a leolwyd yng Ngheredigion, darnau o waith ieuenctid yn Theatr Felin-fach a gwaith gan Dawns Dyfed ymhlith eraill. Nid fod priodi ffurfiau yn hawdd. Mae'n waith anturus a heriol a dyna oedd byrdwn papur Margaret Ames o Ddawns Dyfed sydd wedi ymrafael ers 15 mlynedd gyda chyflwyno cyfrwng 'estron' – dawns gyfoes – mewn cyd-destun Cymreig a Chymraeg. Hybrid diwylliannol y galwodd hi ei gwaith. Tynnodd ar waith y diweddar Cliff McLucas, aelod gwerthfawr o'r Ffwrwm cyn ei farw cynamserol eleni. Tynnodd hefyd ar ei thrioleg dawns Pererin, Gwêl a Cof a Chalon ac ar ei phrofiad o weithio gyda'r gymuned leol mewn Cymraeg a Saesneg. A'r allwedd i greu hybrid diwylliannol defnyddiol? Ymwrthod â chysyniadau sefydliadol statig am ddawns a chelfyddyd gan wreiddio dawns ym mywydau beunyddiol pobl a'u rhyngberthnasau.

Ymysg dadleuon eraill a gyflwynwyd gan Gareth Ioan oedd fod yn rhaid i weithredwyr yn y gymuned ddeall natur ddiwylliannol y gymuned honno os am weithredu'n effeithiol a bod yn rhaid i'r ddealltwriaeth honno gynnwys diffiniad cyfannol o

ddiwylliant ac ystyriaeth lawn o'r cydgysylltiadau rhwng arferion cymdeithasol ar draws ystod profiadau'r gymuned honno. Adleisiwyd hynny gan Eamonn O'Cuiv, Gweinidog Materion Gwledig, Celf a Iaith Llywodraeth Iwerddon ar ei ymweliad unswydd â'r gynhadledd fel gŏr gwadd. Un o'i brif negeseuon oedd disgrifio sut oedd ei Adran yn cymryd agwedd gyfannol at ddatblygu gwledig. Disgrifiodd sut oedd y drefn gynllunio yn Iwerddon yn cael ei hailfeddwl o'r hanfodion, gan sylfaeni'r polisi newydd ar y cysyniad o'r *townlands*. Dydy'r *townlands* ddim yn cyfateb i'r ffiniau plwyf a sir a osodwyd ar y wlad gan fiwrocratiaid y gorffennol. Unedau byw o gymunedau ydyn nhw sy'n hollol real i'r trigolion. Broydd ydyn nhw, a'r broydd traddodiadol anweledig hyn bellach fydd sail polisi cynllunio Iwerddon o ran defnydd tir a dyblygiad economaidd a chymdeithasol.

Yn wyneb methiant affwysol y cyfryngau radio Cymraeg i'r perwyl hyn, un o amcanion Y Ffwrwm yw ceisio dod â golwg ddeallusol newydd ar y cwestiwn yma o barhad ieithyddol a diwylliannol. Dyna wnaeth Dr Lisa Lewis yn gelfydd iawn yn ei phapur hithau, 'Y Corff Gwrthnysig', gan edrych ar y traddodiad protest yng Nghymru yn nhermau'r celfyddydau perfformio fel perfformiad cyhoeddus parhaus a'i effaith ar arferion cymdeithasol ehangach o fewn y Gymru Gymraeg.

Y maes therapi celf yw priod faes Gudrun Jones, awdur a thraethydd pedwerydd papur y gynhadledd. Cymharodd Gudrun agweddau ymarferwyr therapi yng Nghymru a Chatalonia at sefyllfaoedd dwyieithog, gan osod y darluniau hynny o fewn fframwaith gysyniadol seicoleg iaith gyfoes. Dangosodd yn gelfydd iawn bwysigrwydd cynnal deialog – fel mater o therapi ac fel modd i liniaru tensiynau ieithyddol a chanfyddiadau diwylliannol croes. Roedd hynny yn amlygu ymagwedd gynhwysol Y Ffwrwm. Rhaid cynnwys pawb yn yr ymdrech i dsrosglwyddo'r etifeddaeth Gymraeg. Fel dywedodd Gareth Ioan,

> *"Mae creu diwylliant a throsglwyddo etifeddiaeth yn golygu buddsoddiad ac ymroddiad. O fewn cymdeithas gynyddol luosog fel Ceredigion daliwn fod ymrwymiad i gymdeithas, cymdeithas Gymraeg Ceredigion, a pharodrwydd i fuddsoddi ynddi yn feini prawf defnyddiol, beth bynnag fo cefndir diwylliannol unigolion".*

Un arall o fwriadau'r Ffwrwm yw ceisio creu cyfleon i ni fedru osod y sefyllfa ieithyddol yma yng Nghymru mewn cyd-destun ehangach, boed Ewropeaidd neu fyd-eang. Cafwyd cyfraniadau diddorol i'r perwyl hynny gan nifer o gyfranwyr amlwg.

Roedd nifer ohonyn nhw yn cyfrannu ar fideo, e.e. y dramodydd Brian Friel a'r bardd Tom Paulin aelodau o'r grŏp *Field Day Writers* yng ngogledd Iwerddon. Bu Neil Ascherson, Emyr Humphreys, Cliff McLucas a'r hanesydd Hywel Williams hefyd ymysg y cyfranwyr a frithodd y gynhadledd mewn llais a llun rhwng y prif bapurau.

Yn ei phapur hi cyfeiriodd Gudrun Jones at y berthynas rym rhwng ymarferydd a chlaf ac fe ehangwyd ar y thema o rym gan Dr John McCloud o Brifysgol Leeds sydd wedi cyhoeddi'n helaeth ar lenyddiaeth ôl-goloneiddio. Gosododd y trafodaethau yng nghanol y disgwrs gwrth-globaleiddio cyfoes gan dynnu ar brofiadau grwpiau eraill a fu dan orthrwm pwerau gwleidyddol imperialaidd. Ymhlith ei negeseuon oedd pwysigrwydd cymryd gwedd ddeublyg at atgynhyrchu diwylliannol a ystyrir yn lleiafrifol – sef, gweithredu, yn sicr, ac yna esbonio trwy hunanfeirniadaeth adeiladol. Dyna fyddai'n dod â'r anweledig yn weledig, meddai.

Bu'r llyfr *Vanishing Voices* yn ysbrydoliaeth i nifer o aelodau'r Ffwrwm, fel y profodd y dyfyniadau ohono a frithodd y papurau, ac roedd Dr Daniel Nettle o'r Brifysol Agored, cyd-awdur y gyfrol, yno hefyd i sôn am yr hyn sy'n digwydd i ieithoedd llai drwy'r byd. Gellir disgrifio Nettle a'i gydawdur Dr Suzanne Romaine yn ecolegwyr iaith sy'n cymhwyso syniadau ynglŷn â bioamrywiaeth i amrywiaeth ieithyddol. Mae llawer o fri ar warchod cynefinoedd naturiol, meddai, heb fawr o ystyriaeth i bwysigrwydd gwarchod y diwylliannau a grëwyd gan y cynefinoedd hynny ac sy'n parhau i'w cynnal trwy eu harferion cymdeithasol unigryw. Amrywiaeth ieithyddol y byd sy'n ein gwarchod ninnau rhag unffurfiaeth a gwallgofrwydd meddai, mae'n rhan o gyfoeth creiddiol dynoliaeth,

> *"It has been said that bilingualism cannot be shoved down people's throats. Neither should monolingulaism, either by fiat or by benign neglect… our global village must be truly multicultural and multilingual or it will not exist at all."*

Cafwyd digon i'w drafod o eistedd ar Y Ffwrwm, a llawer i ysbrydoli. Ond holl bwrpas y trafod yw bwydo'r gweithredu ac fe dynnwyd y cyfan at ei gilydd yn ddeheuig iawn mewn termau gweithredol ar ddiwedd y gynhadledd gan Cynog Dafis. Bydd y blaenoriaethau polisi ac arferion yn cael eu cyhoeddi ynghyd â llawer o gynnwys y gynhadledd mewn trafodion maes o law. Yn y cyfamser mae'r trafod yn parhau ar y wefan newydd www.yffwrwm.com. Dewch draw am glonc. Mae drws y gweithdy ar agor i bawb.